# Cyfeiriadur Arloesi Cymru

## Beth ydy o?

Mae'r Cyfeiriadur Arloesi yn adnodd ar-lein sydd wedi'i leoli ar wefan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae'n cynnig manylion hanfodol i ddefnyddwyr am sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud yn weithredol â hyrwyddo arloesedd iechyd a gofal cymdeithasol.

Yma, bydd defnyddwyr yn gallu darganfod a chysylltu â sefydliadau ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r cyfeiriadur yn darparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau canlynol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru:

- 500+ o gwmnïau gwyddorau bywyd (Diwydiant)
- Sefydliadau iechyd – byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, Hybiau Arloesi a Chyfathrebu Rhanbarthol (Hybiau RIC), Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ac ati.
- Sefydliadau cymorth arloesedd
- Prifysgolion
- Academïau Dysgu Dwys (ILAs)

Noder nad yw ein cyfeiriadur yn honni cynnwys pob sefydliad yng Nghymru. Rydyn ni’n diweddaru'r cyfeiriadur yn barhaus, ac yn croesawu adborth a cheisiadau gan sefydliadau sy'n ceisio cael eu cynnwys.

Yn ogystal, mae'n bwysig bod yn ymwybodol na fydd sefydliadau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cynnwys, gan eu bod eisoes ar gael drwy Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Yr hyn a gewch chi

Mae pob rhestr sefydliadol yn cynnwys:

- Trosolwg byr o'r sefydliad
- Dolen i'w gwefan lle y bo ar gael
- Amlinelliad o'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig

Mae pob rhestr wedi'i chategoreiddio yn ôl math o sefydliad a sector, gan ganiatáu i ddefnyddwyr hidlo a chwilio yn seiliedig ar:

- **Math o sefydliad**: Deorfa Fusnes, Elusen, Llywodraeth: Lleol, Cenedlaethol a'r DU, GIG, Di-elw, Preifat, Prifysgol, Sefydliad Proffesiynol, Sefydliad Ymchwil
- **Sector**: Academia, Biotechnoleg, Deorfa Fusnes, Iechyd Digidol, Gofal Iechyd, Diwydiant (Arall), Gwasanaethau Cymorth Arloesi, Gwyddorau Bywyd, Technoleg Feddygol, GIG, Fferyllol, Ymchwil, Gofal Cymdeithasol, Hyfforddiant

## Diben

Y nod yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i ddefnyddwyr chwilio am wahanol sefydliadau yng Nghymru sy'n rhan o ecosystem arloesi Cymru.

## Ymwadiad

Nid yw cynnwys yn y cyfeiriadur yn golygu bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn eich cymeradwyo. Nid yw rhestrau'n dilysu cynhyrchion, gwasanaethau na sefydliadau penodol. Anogir defnyddwyr i gynnal eu diwydrwydd dyladwy eu hunain.

## Ymunwch â'r rhestr!

Mae Cymru yn cynnig ecosystem ddeinamig, sy'n grymuso arloeswyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Am ragor o wybodaeth neu i ymddangos yn ein cyfeiriadur, cysylltwch â helo@hwbgbcymru.com.

Rydym yn annog pob sefydliad gaiff ei restru i gadw at y canlynol:

- **Trosolwg:** Rydym yn argymell uchafswm o 100 gair. Po fyrraf yw'r disgrifiad, yr hawsaf yw hi i ddefnyddwyr dreulio'r wybodaeth
- **Dolen gwefan:**
- **Daearyddiaeth:** Cymru
- **Sector:** Uchafswm o ddau neu dri tag fesul rhestr
- **Gwasanaethau:** Uchafswm o bedwar i chwe thag fesul rhestr
- **Math:** Mae'r opsiynau'n cynnwys: Cyhoeddus / Preifat / GIG / Llywodraeth
- **Arbenigedd:** Uchafswm o bum i wyth gair.

## Ceisiadau am newid ac adborth

Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi pob adborth. Gall sefydliadau ofyn am newidiadau / diweddariadau i'w rhestr drwy e-bostio helo@hwbgbcymru.com.

Rhaid i geisiadau am newidiadau gael eu hawdurdodi gan y personél perthnasol o'r sefydliadau a restrir yn y cyfeiriadur. Byddem yn disgwyl derbyn y rhain gan uwch bersonél

awdurdodedig fel y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, y Prif Swyddog Gweithredol, ac ati cyn gwneud unrhyw newidiadau.

## Diweddariadau

Byddwn yn adolygu'r gronfa ddata o bryd i'w gilydd ac yn gwneud y diweddariadau angenrheidiol. Bydd y diweddariadau hyn yn cael eu cynnal i gyd-fynd â diweddariadau cronfa ddata'r Swyddfa Gwyddorau Bywyd.